

Ysbrydoli

Dydd Hapusrwydd hapus i chi!

Dydd Hapusrwydd Rhyngwladol				
HAFAN	HANES	CWESTIYNAU	LLUNIAU	
http://www.dyddhapusrwyddrhyngwladol.com/cymru				

Dydd Hapusrwydd Rhyngwladol

Pryd: Dydd Llun, Mawrth 20

Beth: Ysbrydoli pobl eraill; gwneud pobl eraill (a chi'ch hun) yn hapus

- Ers 2013, mae Dydd Hapusrwydd Rhyngwladol yn cael ei ddathlu ym mis Mawrth.
- Mae'n cael ei drefnu gan y Cenhedloedd Unedig er mwyn dangos pa mor bwysig yw teimlo'n fodlon ac yn hapus. Mae hyn yn bwysig iawn mewn byd prysur lle mae cymaint o bobl yn rhuthro o gwmpas ac mewn byd lle mae llawer o anhapusrwydd weithiau.
- Y syniad yw dangos caredigrwydd tuag at bobl eraill. Drwy wneud hynny, bydd y bobl hynny'n teimlo'n hapusach ond byddwch chi hefyd yn teimlo'n well.
- Mae'r pethau lleiaf yn gallu gwneud i berson deimlo'n well ac mae pawb yn gallu cymryd rhan yn y diwrnod arbennig hwn. Beth am ...?
 - wenu'n garedig ar rywun ar y stryd
 - dweud gair caredig wrth rywun
 - postio negeseuon sy'n ysbrydoli ar y we
 - cysylltu â ffrind neu aelod o'r teulu dydych chi ddim wedi ei weld ers amser
 - cyfansoddi cân hapus
 - helpu rhywun
 - ysgrifennu darn sy'n ysbrydoli a'i anfon i'r papur bro
 - gwneud animeiddiad hapus ar gyfer Dydd Hapusrwydd Rhyngwladol

- Beth am drefnu digwyddiad arbennig yn yr ysgol neu'r coleg neu yn y gwaith?

YSBRYDOLWCH RYWUN.

YSBRYDOLWCH EICH HUN.



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
rhyngwladol	ar draws y gwledydd	international
y Cenhedloedd Unedig	sefydliad, sy'n cynnwys 193 o wledydd, sy'n ceisio gwneud yn siŵr bod gwledydd yn cyd-weithio	the United Nations

Diolch, Cymru

27 Chwefror 2017

Annwyl **Gweiddi**,

Roedd gwylio gemau'r Ewros y llynedd yn bleser! Ces i - a miloedd o bobl eraill - fy ysbrydoli gan y cefnogwyr a'r tîm.

Doedd dim sôn yn y cyfryngau am gefnogwyr Cymru yn ymladd ac yn creu helynt ond roedd y papurau a'r newyddion ar y teledu yn dangos miloedd o gefnogwyr yn eu gwisgoedd coch yn canu, yn gweiddi'n hapus, yn mwynhau'r gemau ond yn ymddwyn yn wych yr un pryd. Roedden nhw'n esiampl i bawb - dyna pam rhoddodd UEFA wobwr iddyn nhw i ganmol eu balchder, eu cariad at y gêm a'u parch tuag at gefnogwyr eraill.

A'r tîm - beth alla i ddweud? Roedden nhw'n anhygoel! Dw i mor falch eu bod nhw wedi cadw at eu harwyddair "Gyda'n gilydd yn gryfach". Roedd hi'n amlwg bod aelodau'r tîm yn deall ei gilydd a'u bod yn gweithio gyda'i gilydd. Yn ogystal, roedden nhw'n dangos parch tuag at eu cefnogwyr, yn enwedig pan wisgon nhw grysau gyda'r geiriau DIOLCH arny'n nhw.

Ysbrydolodd y tîm Gymru gyfan. Roedd pobl sydd ddim fel arfer yn mwynhau pêl-droed wrth eu bodd yn gwylio'r gemau ac roedd Cymry o Fôn i Fynwy yn teimlo mor falch. Dyna pam daeth miloedd o bobl allan i groesawu'r tîm ar ôl iddyn nhw ddychwelyd o Ffrainc. Dyna pam daeth miloedd i gyngerdd mawr gyda'r Manic Street Preachers yng Nghaerdydd. Roedden nhw eisiau dweud, "Diolch yn fawr!".

Nawr, bron blwyddyn ar ôl y digwyddiad, dw i'n dal yn falch. Mae'r cefnogwyr a'r tîm wedi rhoi darlun positif o Gymru ar draws y byd ac mae hyn yn parhau. Mae pobl wedi dod i ddysgu bod yr iaith Gymraeg yn fyw ac yn iach a'n bod ni'n genedl ffantastig. Dw i'n falch o fod yn Gymro!

Diolch!

Alex





[llun gan Jeremy Segrott / CC GAN](#)

[llun gan Jeremy Segrott / CC GAN](#)

[llun gan Jeremy Segrott / CC GAN](#)

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
helynt	trafferth, trwbl	trouble
ymddwyn	bihafio	(to) behave
arwyddair	slogan, ymadrodd sy'n crynhoi syniad pwysig	motto
o Fôn i Fynwy	ar draws Cymru	all over Wales
yn dal yn	yn parhau	still

Hwyl!

Gwirfoddoli
Anfonwyd: Dydd Llun, 27 Chwefror 2017 10:45
Oddi wrth: morgan@gwecym.net
At: gweiddi.org

Helo.

Mae rhai pobl yn meddwl bod gwneud gwaith gwirfoddol yn ddiflas ond dydy hyn ddim yn wir o gwbl. Dw i wedi bod yn gwirfoddoli ers dwy flynedd a dw i wedi mwynhau pob munud. Dw i'n cael llawer o hwyl, dw i wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd a dw i wedi dod yn berson mwy hyderus fy hun.

Gan fy mod i'n helpu'r hyfforddwr sy'n hyfforddi'r tîm pêl-droed o dan 10 oed, dw i wedi dysgu llawer o sgiliau, fel sut i chwarae'n dda, sut i hyfforddi, sut i weithio gyda phobl eraill a dw i wedi dysgu llawer am ddiogelwch ar y cae chwarae hefyd. Bydd hyn i gyd yn help i fi yn y dyfodol oherwydd hoffwn i weithio fel hyfforddwr ffitrwydd ryw ddiwrnod.

Mae gwirfoddoli'n hwyl ac mae digon o gyfleoedd gwahanol ar gael, e.e.

- codi arian at achos da
- helpu mewn digwyddiadau sy'n cael eu cynnal gan elusennau
- helpu i drefnu gweithgareddau diddorol ar gyfer pobl lai ffodus
- helpu grŵp lleol i ofalu am yr amgylchedd
- darllen i berson dall
- helpu gyda'r ceffylau mewn canolfan marchogaeth ar gyfer plant anabl
- helpu gyda chwaraeon ar gyfer plant ac ati.

Felly, ga i annog darllenwyr **Gweiddi** i wneud rhywbeth gwerth chweil yn eu hamser sbâr? Gwirfoddolwch!



Pob hwyl,
Morgan Jones

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
gwaith gwrifoddol	gwaith heb gyflog i helpu eraill fel arfer	voluntary work
gwirfoddoli	gwneud gwaith gwirfoddol	(to) volunteer
hyfforddwr	rhywun sy'n dysgu sgil i rywun arall; person sy'n hyfforddi	trainer
diogelwch	bod yn ddiogel	safety
elusennau	achosion da; ffurf luosog elusen	charities
annog	perswadio	(to) encourage

Camp newydd

Mae Ellis Grover o Gaerfyrddin wedi ei ysbrydoli!

Mae e wedi ei ysbrydoli gan gamp newydd – camp sydd wedi cael ei gwneud yn un o chwaraeon swyddogol Prydain ers Ionawr 2017.

Beth yw'r gamp?

Gwylwch y fideo:

<https://www.youtube.com/watch?v=yMmrDpsYr0s>

Parkour yw enw'r gamp hon – ac mae'n gamp beryglus, fel rydych chi'n gallu gweld!

Ellis Grover



Mae Ellis yn dod o Gaerfyrddin yn wreiddiol, ond mae e wedi teithio i lawer o wledydd diddorol fel perfformiwr syrcas gyda chwmni syrcas Pirates of the Carabina:

<http://www.piratesofthecarabina.com/>.

Mae e wedi bod yn cerdded ar wifrau uchel a pherfformio styntiau rhyfeddol ar draws y byd.

Mae e wrth ei fodd gyda *parkour*. Dechreuodd e pan oedd e tua 12 oed, pan oedd e a'i ffrindiau'n ymarfer o gwmpas yr ardal. Mae e'n dweud bod *parkour* wedi newid ei fywyd ond mae'n pwysleisio nad neidio a rhedeg yn unig yw'r gamp. Mae *parkour* yn bwysig o ran gwneud pobl yn hapus, meddai.

Sut mae *Parkour* yn gwneud pobl yn hapus?

Efallai bod pobl yn nerfus i ddechrau – yn ofnus hyd yn oed – ond maen nhw'n canolbwyntio ar neidio'n ddiogel ac yna, ar ôl llwyddo, maen nhw'n teimlo'n fodlon â'u hunain. Mae pobl yn concro'u hofnau ac yn teimlo'n hapus.

Mae'r gamp yn dod yn llawer mwy poblogaidd, gyda phobl ifanc ar draws Cymru'n cael eu hysbrydoli i'w gwneud hi. Gan ei bod hi'n gamp swyddogol,

mae'n bosib y bydd hi'n ymddangos mewn rhai ysgolion ryw ddiwrnod. Pwy a wŷr?

Gofalus!

Mae'r gamp yma'n beryglus, wrth gwrs. Rhaid meddwl, ystyried ac ymarfer. Peidiwch â'i gwneud hi mewn mannau peryglus a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ymarfer y symudiadau'n iawn. Cofiwch wisgo'n briodol hefyd.



Os ydych chi eisiau darllen mwy, ewch
i: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/38585992>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Pwy a wŷyr?	Pwy sy'n gwybod?	Who knows?
gwifrau uchel	gwifrau sydd wedi eu gosod yn uchel iawn, e.e. mewn syrcas, er mwyn i bobl berfformio arnynt	high wires
priodol	addas	appropriate

Trawiadol!

Mae Mary Lloyd Jones yn artist adnabyddus iawn yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae hi wedi arddangos ei gwaith mor bell i ffwrdd â China ac mae hi wedi cymryd rhan mewn gŵyl arbennig yn Washington, heb sôn am weithio yn Philadelphia, Vermont, India, yr Eidal, Catalonia ac mewn gwledydd eraill hefyd.

Fodd bynnag, Cymru sy'n agos at ei chalon hi. Cymru sy'n ei hysbrydoli hi i beintio. Petai hi ddim yn byw yng Nghymru, mae'n bosib na fyddai hi'n peintio o gwbl, meddai unwaith.

Mae Mary Lloyd Jones yn cael ei hysbrydoli'n arbennig gan yr ardal lle cafodd hi ei geni a'i magu – Pontarfynach yng Ngheredigion.

“Ces i fy magu mewn tirwedd lle roedd rhaeadrau a chreigiau,” meddai ac mae hi'n dangos y dirwedd galed yma yn ei gwaith. Mae hyn yn wahanol iawn i harddwch meddal paentiadau gan rai artistiaid eraill.





Mae hi'n creu darnau mawr sy'n cynnwys siapiau afreolaidd a lliwiau trawiadol i gyfleu'r tir - lliwiau fel coch a phorffor, sef lliwiau'r grug sy'n tyfu dros y dirwedd. Mae haenau o ddelweddau yn ei gwaith.

Edrychwch ar rai o'i lluniau hi ar y we:

<http://www.walesonline.co.uk/incoming/gallery/work-by-mary-lloyd-jones-8226783>

Mae gan Mary Lloyd Jones ddi-ddordeb mawr mewn sut roedd pobl yn ysgrifennu amser maith yn ôl. Mae hi'n hoffi'r siapiau a'r llythrennau roedden nhw eu defnyddio ac mae hi'n eu cynnwys nhw yn ei gwaith weithiau.

Edrychwch ar y gwefannau hyn i weld mwy o enghreifftiau o'i gwaith.

Beth ydych chi'n gallu gweld yn y lluniau hyn?

<http://marylloydjones.co.uk/biography/index.html>

<http://marylloydjones.co.uk/newwork/index.html>

Sylwch ar y geiriau hyn:

tirwedd - nodweddion ardal rydych chi'n gallu eu gweld, e.e. mynyddoedd, afonydd, creigiau.

tirlun - darlun o'r dirwedd, e.e. llun neu baentiad.

[llun](#) gan [Paul](#)

[llun](#) gan [Paul](#)

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
trawiadol	ansoddair i ddisgrifio rhywbeth sy'n creu argraff fawr	striking
tirwedd	mynyddoedd, afonydd, creigiau - beth rydych chi'n gallu ei weld mewn ardal	landscape
rhaedrau	ffurf luosog rhaeadr - afon yn llifo dros ddibyn	waterfalls
creigiau	ffurf luosog craig - cerrig mawr iawn	rocks
afreolaidd	ddim yn rheolaidd	irregular


Chwaraeon – “Os gwelwch yn dda” neu “Dim diolch”?

Mae arolwg a gafodd ei baratoi yn 2015 yn dangos bod:

school sport survey arolwg ar chwaraeon ysgol

All Wales 2015/Cymru Gyfan 2015

sportwales
chwaraeonycymru



- mwy o bobl ifanc Cymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol o leiaf dair gwaith yr wythnos yn 2015 (48%) nag yn 2013 (40%)
- 93% o blant a phobl ifanc Cymru yn mwynhau addysg gorfforol
- bechgyn Cymru (52%) yn fwy tebygol na merched Cymru (44%) o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rheolaidd.

Dyma rai canlyniadau diddorol eraill:

Beth ydy barn darllenwyr **Gweiddi**?



Chris

Dw i'n cael dwy wers addysg gorfforol / chwaraeon yn yr ysgol bob wythnos a dw i'n mwynhau'n fawr. Dw i ddim yn arbennig o dda ond dw i'n gwybod bod cadw'n heini yn bwysig i fi, felly dw i'n hapus iawn i wneud chwaraeon.



Daf

Ydy, mae cadw'n heini'n bwysig ond dw i ddim yn mwynhau chwaraeon yn yr ysgol. Mae'n well gen i fynd i'r ganolfan hamdden i wneud carate yn y nos.



Irfan

Ond mae chwaraeon yn yr ysgol yn rhad ac am ddim. Dw i ddim eisiau gwario arian ar garate, nofio yn y pwll nofio cyhoeddus a chael gwersi eraill.



Lyn

Does dim rhaid gwario arian ar gadw'n heini. Beth am fynd i gerdded yn egniol - *power walking* yn Saesneg - neu beth am fynd allan ar y beic ar ddydd Sadwrn? Dw i'n beicio bob penwythnos.



Jo

Dw i ddim yn mwynhau chwaraeon o gwbl.

Gwybodaeth

<http://sportwales.org.uk/ymchwil-a-pholisi/arolygon-ac-ystadegau/arolwg-ar-chwaraeon-ysgol.aspx?lang=cy&>

<http://sport.wales/newyddion-a-digwyddiadau/newyddion-a-digwyddiadau/ein-newyddion/newyddion-diweddaraf/nifer-y-plant-ysgol-yng-nghymru-sydd-wedi-gwirioni-ar-chwaraeon-yn-uwch-nag-erioed.aspx?lang=cy&>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
gweithgaredd corfforol	ymarfer corff neu chwaraeon corfforol	physical activity
rhoi cynnig ar	trio	(to) try

Jade Jones

Diolch, Taid

“Taid sydd wedi fy ysbrydoli i,” meddai Jade Jones, ar ôl ennill teitl Personoliaeth Chwaraeon y BBC yn 2016. Dyma’r ail dro iddi hi ennill a dim ond saith person arall sydd wedi ennill y teitl fwy nag unwaith.

Ond pwy ydy Jade Jones?

Mae hi’n dod o’r Fflint, yng Ngogledd-ddwyrain Cymru a chafodd hi ei geni ar 21 Mawrth, 1993. Mae hi’n bencampwraig taecwondo – diolch i’w thaid.

Pan oedd hi’n 8 oed, mae’n debyg ei bod hi braidd yn ddrygionus. Felly, er mwyn ei chadw hi allan o drwbwl, aeth ei thaid â hi i glwb taecwondo yn y Fflint. Yno, daeth ei thalent ym maes taecwondo’n amlwg iawn.

Gan ei bod mor ddawnus ac yn barod i weithio mor galed, dechreuodd gael hyfforddiant gan yr hyfforddwyr gorau ym Manceinion bedair gwaith yr wythnos ac yng Nghaerdydd dros y penwythnos weithiau - gyda’i thaid yn ei gyrru i’r dinasoedd hyn fel arfer.

Cefnogaeth leol

Mae’n siŵr bod pobl y Fflint wedi ei hysbrydoli hi hefyd oherwydd daethon nhw at ei gilydd i godi digon o arian - £1,600 - i’w hanfon i gystadlu mewn twrnamaint fyddai’n arwain at y Gemau Olympaidd.

Pencampwraig

Erbyn hyn, mae hi wedi ennill llawer o wobrau pwysig ym myd taecwondo, ond y ddwy bwysicaf, efallai, yw:

- y fedal aur yng Ngemau Olympaidd Llundain yn 2012
- y fedal aur yng Ngemau Olympaidd Rio de Janeiro yn 2016.

Gemau Olympaidd Llundain, 2012

Yn y Gemau Olympaidd yn Llundain, roedd hi’n ymladd yn erbyn Youzhuo Hou o China a oedd wedi ei churo hi o drwch blewyn y flwyddyn gynt ym mhencampwriaeth y byd yn Korea. “Roeddwn i wastad wedi bod eisiau ei churo hi,” meddai Jade. “Cymerodd hi bencampwriaeth y byd oddi wrtho i y llynedd -

mi wnaeth hynny fy lladd i. Doeddwn i ddim yn mynd i adael iddi hi fy nghuro hi o flaen cynulleidfa gartref.

Rhywbeth arall wnaeth ei hysbrydoli oedd gweld llwyddiant aelodau tîm Prydain. “Meddyliais i, ‘Dw i eisiau bod yn rhan o hyn i gyd’” meddai.



Gemau Olympaidd Rio de Janeiro, 2016

Yn y Gemau hyn, curodd hi Eva Calvo Gomez o Sbaen yn y rownd derfynol i ennill y fedal aur. Roedd hi o dan fwy o bwysau i ennill yn y Gemau hyn gan ei bod wedi ennill yn 2012 ond fel dywedodd Jade, “Roeddwn i’n gwybod fy mod i’n ddigon da i ennill a byddwn i wedi bod yn siomedig petawn i ddim wedi ennill ... Mae ennill eto yn anhygoel. Dw i wedi hyfforddi mor galed ond mae’r holl hyfforddi a’r gwaith caled wedi bod yn werth chweil.”

Proffil taecwondo

Wrth dderbyn y teitl Personoliaeth Chwaraeon y BBC, 2016, dywedodd Jade nad oes llawer o sylw’n cael ei roi i daecwondo. Mae hi’n gobeithio bod ennill Personoliaeth y BBC, 2016 wedi codi proffil y gamp ac y bydd mwy o bobl yn dod i ymddiddori ynddi.

[llun](#) gan [Singapore 2010 Youth Olympics](#) / [CC GAN](#)

[llun](#) gan [Nizam Uddin](#) / [CC GAN](#)

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
o drwch blewyn	roedd hi'n gystadleuaeth agos iawn - gallai'r naill neu'r llall fod wedi ennill	very narrowly, by a hair's breadth
wastad	ar hyd ei hoes	always

Blwyddyn Chwedlau

Beth yw'r Flwyddyn Chwedlau?

Mae'r Bwrdd Croeso wedi penderfynu ar y thema **Chwedlau Cymru** er mwyn ceisio denu ymwelwyr i Gymru yn ystod 2017. Thema'r llynedd oedd antur a Blwyddyn Antur oedd hi. Thema eleni ydy chwedlau ac felly Blwyddyn Chwedlau yw hi.

Pa fath o leoedd sy'n cael eu hyrwyddo?

Mae llawer o leoedd diddorol yn cael eu hyrwyddo, e.e.

- Castell Caernarfon, sy'n gysylltiedig â Chwedl Macsen Wledig
- Beddgelert, sy'n gysylltiedig â chwedl Gelert, y ci
- traethau Borth ac Ynys Las yng Ngheredigion, lle roedd Cantre'r Gwaelod, yn ôl pob sôn
- Eglwys Gadeiriol Tyddewi, sy'n gysylltiedig â Dewi Sant
- Tregaron, sy'n gysylltiedig â Twm Siôn Cati
- Ynys Llanddwyn a'i chysylltiad â Santes Dwynwen.



Dim ond rhai o'r lleoedd diddorol sydd â chysylltiad â chwedlau yw'r rhain, cofiwch!

Sut ddarlun sy'n cael ei greu o Gymru?

Darlun cyffrous, lle mae'r hen a'r newydd yn cyfarfod. Mae'r iaith Gymraeg yn hen ac mae llawer o hen chwedlau yng Nghymru ond mae Cymru'n wlad fodern hefyd lle mae digwyddiadau cyffrous yn cael eu cynnal.

Ydy'r Flwyddyn Chwedlau yn edrych yn ôl gan mai chwedlau yw'r thema?

Mae peth sylw'n cael ei roi i'r gorffennol, wrth gwrs, er enghraifft, mae sôn am Dewi Sant, Hedd Wyn a'r Gadair Ddu a llawer o'r hen chwedlau, ond mae pwyslais hefyd ar greu chwedlau newydd – ar gael profiadau newydd yng Nghymru, drwy fynd i ddigwyddiadau fel gwyliau celf a bwyd a rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA, drwy fwynhau'r wifren wib, bownsio o dan y ddaear a syrffio a beicio eithafol yn Eryri.

Mae rhywbeth i bobl ifanc, felly?

Oes, mae rhywbeth at ddant pawb yng Nghymru.

Os ydych chi eisiau darllen mwy, ewch i: croeso.cymru

[llun](#) gan [Neil Schofield](#) / [CC GAN](#)

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
hyrwyddo	rho hwb i, hysbysebu	(to) promote
yn ôl pob sôn	mae'n debyg	apparently

Ysbrydoli pobl eraill

📄 Y Cyfrifiad

Bob deng mlynedd, mae cyfrifiad yn cael ei gynnal.

Beth sy'n digwydd?

Mae aelod o bob cartref yng Nghymru yn gorfod llenwi ffurflen sy'n gofyn am wybodaeth am y teulu a'r cartref, e.e.:

- faint o bobl sy'n byw yn y cartref
- pa fath o gartref yw e
- beth yw gwaith y bobl yn y cartref
- faint ohonyn nhw sy'n siarad Cymraeg ac ati.

Mae'r Cyfrifiad yn bwysig oherwydd mae'n rhoi darlun cyflawn o'r boblogaeth ar adeg benodol. Yn ogystal, mae'r atebion yn cael eu dadansoddi ac maen nhw'n helpu'r llywodraeth, yr awdurdodau iechyd a sefydliadau eraill i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Dyma'r ystadegau am faint o bobl oedd yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011.

Siaradwyr Cymraeg yn ôl awdurdod lleol

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LocalAuthority-Gender-DetailedAgeGroups-2011Census>

Ers cyhoeddi'r ystadegau, mae Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, a Gweinidog y Gymraeg, Alun Davies, wedi cyhoeddi bod y Llywodraeth eisiau cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Meddai Carwyn Jones,

"Mae'n hollbwysig ein bod yn cefnogi ein hadnodd pwysicaf, sef ein pobl - y siaradwyr Cymraeg ar draws y wlad, boed yn siaradwyr rhugl, yn siaradwyr llai hyderus neu'n ddysgwyr. Mae angen i ni barhau i helpu pobl i ddefnyddio'r iaith mewn ffyrdd mwy ymarferol, creadigol a difyr. Mae ein hiaith yn dylanwadu ar gerddoriaeth, storïau, traddodiadau a bywyd bob dydd."

Ond ...

Sut mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn?

Sut mae ysbrydoli mwy o bobl i siarad Cymraeg?

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
cynyddu	codi	(to) increase
hollbwysig	pwysig iawn, iawn	all-important
adnodd	ffurf unigol adnoddau - cyfoeth; cyflenwad o rywbeth neu bobl	resource
boed	os	whether
difyr	sy'n rhoi difyrrwch	entertaining